# Amlinelliad o’r broses ymgynghori statudol – Ddim LA

**Cam 1: Datblygu cynnig**
Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a’i ystyried gan gorff llywodraethu’r ysgol, yn ogystal â’r esgobaeth. Mae Adran 2 o’r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi pryd y mae’n ofynnol dilyn y weithdrefn statudol.

**Cam 2: Ymgynghori**
Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan yr Ysgol. Rhaid i’r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i ymgyngoreion ymateb i’r ddogfen, gydag o leiaf 20 o’r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Rhaid i randdeiliaid a enwir yn adran 3.4 o’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu trwy lythyr/e-bost.

**Cam 3: Adroddiad ar yr ymatebion i’r ymgynghoriad**
Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori’n cael ei ystyried a bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei ddatblygu a’i gyflwyno i’r corff llywodraethu i gael ei ystyried.

**Cam 4: Ystyriaeth gan y Corff Llywodraethu**
Bydd y corff llywodraethu yn ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i’r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid cyhoeddi’r adroddiad a rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi’r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol.

**Cam 5: Hysbysiad statudol**
Rhaid i’r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol ac fel a nodir yn adran 4.1 o’r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

**Cam 6: Cyfnod gwrthwynebu**
Mae gan unrhyw un sy’n dymuno gwrthwynebu cynnig y cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy’r e-bost a chael eu hanfon at y cynigydd cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod sy’n dechrau â’r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad.

**Cam 7: Adroddiad gwrthwynebu**
Dan adran 49 o Ddeddf 2013 pan fo gwrthwynebiadau wedi dod i law **rhaid** i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o’r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i’r gwrthwynebiadau hynny (“yr Adroddiad Gwrthwynebu”).

**Cam 8: Ystyriaeth**
Os oes unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu rhaid atgyfeirio’r cynnig llawn at yr awdurdod lleol ar gyfer penderfyniad.

**Cam 9: Llythyr penderfyniad**
Bydd cadarnhad o’r penderfyniad ac argaeledd adroddiad gwrthwynebu’n cael ei roi i randdeiliaid.